# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.10.21 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Kevin Goodchild (Cadeirydd), Dylan Thomas, Keith Carroll, Geraint Edwards, Huw Davies
Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths,
Glenda Edwards (clerc) a Debbie Taylor-Bond (clerc newydd)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gyflwyno ac estyn croeso cynnes i Debbie Taylor-Bond fel clerc newydd i'r Cyngor Cymuned.
Disgrifiad swydd a chontract cyflogaeth wedi ei roi i Debbie.

2. **Ymddiheuriadau:** Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Jenny Warne, Ian Williams.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 08.09.21 fel rhai cywir.
**Cynnig** – Geraint Edwards **Eilio** – Huw Davies **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.09.2021):**

   a) **Offer ffitrwydd i'r cae chwarae yn Llwyngwril** – Manylion wedi eu derbyn gan gwmni Freshair Fitness.
   Pris tri offer ffitrwydd i oedolion yn costio £4,000 (ag eithro VAT). Cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r noddwr a chynrychiolydd o Freshair Fitness ar **15.10.21**. GE a HD i gynrychioli'r Cyngor Cymuned.
   **Camau i'w gymryd** - ? Cadarnhau fod y cyngor cymuned yn cael hawlio'r VAT yn ôl.
   ? Cadarnhau hefo BHIB (yswiriant y cyngor cymuned) na fydd newid i gosta'r yswiriant
   ? Cadarnhau hefo **ROSPA** lle fydd rhaid i'r offer newydd gael eu gosod gan fod offer plant eisoes yn y cae chwarae, a faint o arwyddion fydd rhaid i'r cyngor roi mewn lle. (Glen)

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Ymgynghoriad Adran Drafnidiaeth** - ar y defnydd peryglus o fadau dwr personol - (jetskis)
   Llythyr wedi ei dderbyn gan Liz Saville Roberts - AS - yn gofyn am sylwadau ar yr ymgynghoriad yma.
   Aelodau wedi trafod a nodwyd fod rhai sylwadau wedi eu derbyn ynglŷn â sŵn o'r badau dwr personol yma.
   Cytunodd aelodau'r Cyngor Cymuned mewn egwyddor a'r newidiadau arfaethedig yma i'r ddeddfwriaeth.
   **Camau i'w gymryd** – Ymateb i'w anfon cyn 01.11.21 – (DT).
   b) **Rhwystrau diogelwch a wal derfyn Network Rail ar y ffordd ger Friog** - llythyr wedi ei dderbyn gan Kevin Collins Tim Capital Delivery NWR – yn cynnig cwrdd ar y safle – Dydd Mawrth 19.10.21 am 2yp i drafod ymhellach.
   **Camau i'w gymryd** - GE, KG and HD i fynychu'r cyfarfod safle.
   c) **Biniau Halen** - angen cael ei checio (KG)
   **Camau i'w gymryd** – gadael i Gyngor Gwynedd wybod os oes biniau angen eu llenwi (Glen).
   d) **Cyngor Gwynedd – Prosiect Ardal Ni 2035**
   **Camau i'w gymryd** – gofyn i Louise Hughes gyflwyno'r wybodaeth yn y cyfarfod nesaf (Glen).

6. **Materion Cynllunio:** Dim

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Medi 2021 yn gywir.
**Cynnig** – Huw Davies **Eilio** – David Griffiths **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

- Anfoneb gan Geraint Micah am waith ar geg yr afon ger Borthwen = £498.00
- Anfoneb gan Gyngor Gwynedd am yr archwiliad mewnol cyfrifon y cyngor cymuned = £261.00
- Talu cyflog a chosta'r clerc am y 6 mis diwethaf = £1,452.62
- Rhodd i'r "Poppy Appeal" am y wreath - pawb yn gytûn i roi cyfraniad o £50.00
  **Cynnig** – Dylan Thomas **Eilio** – David Griffiths.

a) **Banc HSBC** i weithredu taliadau newydd ar gyfer cyfrifon banc cymunedol.
Derbyniwyd hysbysiad o daliadau newydd i ddod i rym ar 01.11.21.
Bydd hyn yn arwain at dal ffioedd cyfrif misol ar gyfer y cyfrifon cymunedol o £5 a thaliad o 0.40c am bob siec a gyhoeddir a thaliad o 40% o werth yr arian yn mynd i mewn i'r cyfrif, a thal o £25 am dystysgrif archwiliad.
**Camau i'w gymryd** - Ymholiadau i'w gwneud i weld a oes gan fanciau eraill daliadau o'r fath. (DT)

b) **Archwiliad Allanol 2021** - ni dderbyniwyd Tystysgrif Archwilio gan Archwiliad Cymru felly rhybudd wedi ei gyhoeddi ar y wefan i hysbysu pawb a ffurflen flynyddol wedi ei chyhoeddi hefyd - fel y manylir yn yr hysbysiad

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Louise Hughes ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

a) **Rhes gyswllt** i gael ei diweddaru i Gyngor Gwynedd (DT)
b) **Ceg yr afon ger Borthwen** – Huw Davies wedi rhoi adroddiad diweddaraf – gwaith wedi ei gwblhau 12.10.21.
Aelodau i gyd wedi mynegi diolch i Geraint Micah, Keith Roberts a Huw Davies am eu gwaith i gwblhau'r prosiect.
Amryw o sylwadau cadarnhaol wedi ei derbyn gan aelodau'r gymuned.
**Camau i'w gymryd** - **1.** Cysylltu â'r Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i ofyn a bydd cyfraniad arall ar gael ganddynt flwyddyn nesaf os ydyw'r gwaith yma angen cael ei wneud eto blwyddyn nesaf.
**2.** Anfon yr anfoneb i'r Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd i gael ad-daliad (£498.00)-(Glen)
c) **Llinellau melyn a phroblemau parcio** - dal i aros i'r gwaith yma gael ei wneud
**Camau i'w gymryd** - cysylltu ag adran priffyrdd Cyngor Gwynedd i gael diweddariad ganddynt (Glen)
d) **Chwystrelli Chwyn** – Chwyn yn dal i fod yn bproblem yn y pentref
**Camau i'w gymryd** - cysylltu ag adran priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn pryd maent yn dod o amgylch y pentref ag os ydynt yn gwneud tu allan i'r parthau 30mya. (Glen)
e) **Coed Nadolig** - archebu coed Nadolig i Lwyngwril a Rhoslefain
**Camau i'w gymryd** - GE i holi ynglŷn â choeden i Lwyngwril a JG i holi ynglŷn ag un i Roslefain.
Anfoneb heb ei dderbyn am y goeden blwyddyn ddiwethaf gan Mr G Evans, Gwanas, Dolgellau.
f) Wal derfyn y cae chwarae – twll yn y wal ger y ffens palis
**Camau i'w gymryd** - cysylltu â Mei Black - (JG)

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 10.11.2021 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd
Cadeirydd ............................................................ Dyddiad ......10.11.21

KEITH CARROLL